GWIR HEDDWCH A DIOGELWCH—PRYD?

Nodyn i'r siaradwr:
Tra'n cydnabod bod rhai yn gwbl ddiffuant yn eu hymdrechion i gael heddwch, esboniwch pam bydd heddwch byd-eang ond yn dod trwy Deyrnas Dduw a pham mae gwir heddwch yn meddwl llawer mwy nag absenoldeb rhyfel. Gan resymu ar yr Ysgrythurau, helpwch bawb i weld bod gwir heddwch a diogelwch yn agos. Wrth drafod 1 Thesaloniaid 5:2, 3, peidiwch â damcaniaethu neu roi eich syniadau eich hun. Glynwch yn ofalus wrth yr hyn sydd wedi ei fynegi yn yr amlinelliad.

PAM MAE GWIR HEDDWCH A DIOGELWCH MOR ANODD I'W CAEL (3 mun.)

Mae dynion wedi ceisio heddwch a diogelwch ers canrifoedd

Ar y gorau, maen nhw wedi llwyddo i gael ychydig gyfnodau byr o gyd-fyw gyda'r cenhedloedd sy'n gymdogion iddyn nhw

Dydyn nhw ddim yn deall y gwir resymau y mae heddwch a diogelwch yn absennol yn y byd hwn

Mae Gair Duw yn rhoi dau reswm sylfaenol dros y ffaith fod gwir heddwch mor anodd i'w gael

(1) Dydy dynolryw ddim mewn heddwch â Duw, Ffynhonnell cariad a heddwch (2Cor 13:11; *w97*-E 1/15 12)

(2) Mae'r byd yn cael ei reoli gan Satan, ffynhonnell casineb a rhyfel (In 12:31; *w90*-E 4/1 6)

Gadewch inni ystyried y rhesymau canlynol

MAE GWIR HEDDWCH A DIOGELWCH YN DIBYNNU AR FOD MEWN HEDDWCH Â DUW (5 mun.)

Cafodd dyn ei greu i ddibynnu ar Jehofah ac ufuddhau i'w ddeddfau (Jer 10:23)

Pan wrthryfelodd Adda yn erbyn teyrnasiad Duw, fe gollodd y berthynas heddychlon oedd ganddo gyda Duw (Rhuf 5:12)

Ers hynny, mae hanes dyn wedi bod yn llawn casineb, rhyfel, ac anufudd-dod i ddeddfau Duw

Heddiw, i lawer o bobl, ystyr heddwch a diogelwch yw absenoldeb rhyfel, cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, a byw mewn adeiladau â systemau diogelwch soffistigedig

Dydy amgylchiadau o'r fath ddim yn golygu gwir heddwch a diogelwch

I adfer heddwch â Duw, mae'n rhaid inni gydnabod ein hangen ysbrydol ac ymostwng i ddeddfau Duw (Mth 5:3; Esei 48:18)

Mae cariad tuag at Dduw a pharch dwfn at ei egwyddorion cyfiawn yn hanfodol ar gyfer cael heddwch a diogelwch (Esei 57:21; *w99*-E 10/1 11)

BYDD CAEL GWARED AR SATAN YN PARATOI'R FFORDD AR GYFER HEDDWCH A DIOGELWCH (13 mun.)

Yn fwy nag erioed, mae'r byd heddiw o dan ddylanwad Satan (1In 5:19)

Yn fuan ar ôl i Deyrnas Dduw ddechrau rheoli yn y nef ym 1914, cafodd Satan ei fwrw i'r ddaear (Dat 12:9; *w06*-E 3/15 13)

Ers hynny, mae ymdrechion Satan i gamarwain dyn wedi dwysáu, ac mae casineb, rhyfel, a phob math o bethau dychrynllyd eraill wedi cynyddu (Dat 12:12)

Oherwydd dylanwad drwg a goruwchddynol Satan, ni fydd ymdrechion dynion byth yn medru dod â heddwch i'r ddaear (*w85*-E 10/15 5)

Mae Jehofah yn ein sicrhau bod ei fwriad i ddod â heddwch parhaol i'r ddaear heb newid (Sal 37:9, 11)

Bydd yn gwneud hyn drwy gyfrwng Iesu, y "Tywysog heddychlon" (Esei 9:6, 7)

Mae'r amser wedi cyrraedd pan fydd proffwydoliaethau'r Beibl ynglŷn â digwyddiadau arwyddocaol ac ysgytwol yn cael eu cyflawni (Da 2:33-35, 41-45; *dp*-E 57-62)

Mae un digwyddiad sydd eto i ddod yn cael ei ragfynegi yn 1 Thesaloniaid 5:2, 3 [Darllen]

Gall y cri 'heddwch a diogelwch' fod yn un digwyddiad neu'n gyfres o ddigwyddiadau sy'n ymwneud ag arweinwyr gwleidyddol

Efallai y bydd arweinwyr crefyddol yn cymryd rhan ac yn dweud hyn (Jer 6:14)

Ynglŷn â chyflawniad llawn y broffwydoliaeth hon, doeth fyddai aros i weld beth fydd yn digwydd ar lwyfan y byd

Mae Gair Duw yn ein sicrhau y bydd y "bwystfil" a'r "deg corn" yn ymosod ar gau grefydd ac yn ei dinistrio (Dat 17:15, 16; *re*-E 255-258)

Mae llawer yn credu bod crefydd yn eu rhwystro rhag cael heddwch

Ar ôl i gau grefydd gael ei dinistrio, bydd Teyrnas Dduw yn dryllio holl lywodraethau dynol adeg Armagedon (Da 2:44; Dat 16:16; 19:19-21; *w90*-E 5/15 6-7)

Wedi hynny, bydd cael gwared ar Satan yn agor y drws i fil o flynyddoedd yn llawn gwir heddwch a diogelwch (Dat 20:1-3)

NODWEDDION GWIR HEDDWCH A DIOGELWCH (5 mun.)

Ar ôl cael gwared ar Satan, mae Duw yn addo gwir heddwch a diogelwch i'r rhai fydd yn byw ar y ddaear

Heddwch â'n cyd-ddyn ac ag anifeiliaid gwyllt (Esei 11:6-9)

Daear o baradwys (Esei 35:1)

Iechyd da a digon o fwyd i bawb (Sal 72:16; Esei 33:24)

Gwaith sy'n dod â boddhad (Esei 65:21-23)

Diwedd ar farwolaeth a galar (Dat 21:4)

DYSGWCH SUT I WEITHREDU NAWR ER EICH LLES EICH HUN! (4 mun.)

Mae Micha yn disgrifio sut mae Jehofah yn dod â heddwch a diogelwch [Darllenwch Micha 4:3, 4] (*w07*-E 11/1 15)]

Heddiw, mae gweision Jehofah eisoes yn ufuddhau i'w ofynion drwy 'beidio â dysgu rhyfela mwyach' a byw mewn heddwch â'i gilydd (Esei 32:17)

Cewch chithau hefyd heddwch a diogelwch

Cynyddwch yn eich gwybodaeth o Jehofah, a datblygwch berthynas glòs ag ef (In 17:3; Iag 4:7, 8)

Bydd astudio'r Beibl gyda Thystion Jehofah yn eich helpu i wneud hyn

Drwy fod yn ufudd i ddeddfau Duw, fe fyddwch yn medru cael perthynas heddychlon â Jehofah Dduw a phobl eraill hyd yn oed yn awr wrth inni fyw yn y byd cythryblus hwn (Sal 119:165; 2Pe 3:14)

Yn fuan fe ddaw gwir heddwch a diogelwch i bara am byth drwy'r byd i gyd

Nawr yw'r amser i ymddiried yn llawn ac yn llwyr yn Jehofah! (Dia 3:5, 6)

(Nid oes angen darllen pob testun sydd wedi ei gyfeirio ato)

© 2009 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania